



Department
for Education

Lefelau Gwasanaeth Gofynnol ar gyfer Addysg

Ymgynghoriad y Llywodraeth

**Dyddiad Iansio 15 Rhagfyr 2023
Ymateb erbyn 16 Chwefror 2024**

Cynnwys

Rhagair yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg	3
Ar Gyfer Pwy Mae Hyn	4
Dyddiad Cyhoeddi	4
Ymholiadau	4
Copïau Ychwanegol	4
Yr Ymateb	4
Ymateb Ar-lein	4
Ffyrdd Eraill o Ymateb	4
Dyddiad Cau	5
Cefndir	6
Trosolwg o'r Ddeddf	6
Sut mae lefel gwasanaeth gofynnol yn gweithio	6
Cwmpas daearyddol	7
Y cyd-destun cyfreithiol	8
Yr achos dros lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau	9
Cymariaethau rhyngwladol	11
Cynigion	12
Lleoliadau o fewn cwmpas lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau	12
Lleoliadau sydd y tu allan i gwmpas lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau	12
Egwyddorion cynllunio a chwmpas ar gyfer lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau	13
Addysg o bell	15
Cynnig 1: carfannau blaenoriaeth mewn ysgolion a cholegau	16
Plant a Phobl Ifanc sy'n Agored i Niwed	16
Grwpiau arholiadau	18
Plant gweithwyr hanfodol	21
Cynnig 2: dull hybrid (pob disgybl mewn carfannau cynradd a blaenoriaeth mewn lleoliadau uwchradd ac AB)	23
Defnyddio rhestrau dyletswyddau am gyfnodau estynedig o streicio yng nghynnig 1 a chynnig 2	25
Goblygiadau gweithlu i ysgolion a cholegau	26
Yr Achos dros lefel gwasanaeth gofynnol mewn addysg uwch	27
Lefel gwasanaeth gofynnol mewn addysg uwch	28
Streicio	28
Profiad myfyrwyr	28
Addysgu ac arholiadau	29
Lliniaru	30
Cwestiynau Ymgynghori	32
Gwybodaeth am yr atebydd	32
Effaith y polisi	34

Rhagair yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial.

Gwelsom i gyd effaith ddinistriol yr amhariad a achoswyd gan bandemig COVID-19, a'r effaith ar blant o fod allan o'r ysgol am gyfnodau hir. Mae pob diwrnod y tu allan i'r ysgol yn gyfle a gollwyd, ac mae'r absenoldebau hyn wedi cael effaith sylweddol ar bresenoldeb, cyrhaeddiad disgyblion, eu lles a'u hiechyd meddwl. Dyna pam yr wyf yn ddiolchgar am y gwaith anhygoel gan arweinwyr ysgolion, athrawon a staff i helpu disgyblion i adfer yn sgil effeithiau'r pandemig. Mae'n bwysicach nag erioed bod pob plentyn yn treulio pob dydd mewn ysgol y mae hynny'n bosibl, mewn amgylchedd cefnogol a meithringar.

Yn y cyd-destun hwn, gwnaeth streiciau athrawon y llynedd amharu'n fawr ar blant a rhieni. Arweiniodd hyn at fwy o amser allan o addysg i lawer gormod o ddisgyblion. Collwyd dros 25 miliwn o ddiwrnodau ysgol yn ystod 10 niwrnod streic mewn ysgolion yn unig, gyda hyd at 200,000 o athrawon yn streicio yn ystod pob diwrnod streic cenedlaethol. Effeithiodd streiciau addysg ar filiynau o bobl, ac maent yn haeddu cael sicrwydd y bydd gwasanaethau sy'n hanfodol i'w dyfodol ar gael pan fydd arnynt eu hangen.

Felly, rwyf wedi ymrwymo i roi mwy o fesurau diogelu ar waith ar gyfer plant, rhieni a theuluoedd pe byddai streicio yn y dyfodol. Bydd angen inni gydbwysu hawliau gweithwyr i streicio â hawl plentyn i gael addysg.

Yn anffodus, nid ysgolion a cholegau yn unig sydd wedi eu heffeithio gan weithredu diwydiannol. Rydym i gyd yn adnabod pobl ifanc ac oedolion sy'n astudio mewn prifysgol, ac sydd wedi gweithio'n galed i ennill eu lle. Mae'n briodol iddynt gael yr addysg y maent yn ei haeddu ac wedi talu amdani.

Mae'r gweithredu diwydiannol diweddar gan staff prifysgol yn peryglu hyn, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny y cafodd eu cynlluniau addysg a gyrfa eu peryglu oherwydd na chafodd eu harholiadau terfynol eu marcio pan ddisgwylir hynny fel arfer.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rwyf yn gofyn am eich safbwyntiau ar gyflwyno lefel gwasanaeth gofynnol mewn gwasanaethau addysg. Bydd eich sylwadau yn helpu i lywio'r broses o gynllunio lefel gwasanaeth gofynnol ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Ar Gyfer Pwy Mae Hyn

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio ym Mhrydain Fawr neu sydd â diddordeb mewn addysg. Croesawn sylwadau oddi wrth yr hyn a ganlyn:

- cyflogwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion, addysg bellach, ac addysg uwch;
- undebau llafur addysg;
- athrawon, staff a chyrrff llywodraethu;
- awdurdodau lleol; a
- rhieni, disgyblion a myfyrwyr.

Dyddiad Cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 15 Rhagfyr 2023.

Ymholiadau

Os yw eich ymholiad yn ymwneud â chynnwys polisi yr ymgynghoriad hwn, gallwch gysylltu â'r tîm yn: Minimumservicelevels.consultation@education.gov.uk

Os yw eich ymholiad yn ymwneud â gwefan e-ymgynghori yr Adran Addysg (Llywodraeth y DU) neu'r broses ymgynghori yn gyffredinol, gallwch gysylltu ag Is-adran Gweinidogol a Chyfathrebu Cyhoeddus yr Adran Addysg drwy e-bost: Consultations.Coordinator@education.gov.uk, dros y ffôn: 0370 000 2288 neu drwy dudalen [Cysylltu â'r Adran Addysg](#).

Copïau Ychwanegol

Mae copïau ychwanegol ar gael yn electronig a gellir eu lawrlwytho o [ymgynghoriadau yr Adran Addysg GOV.UK](#).

Yr Ymateb

Bydd ymateb yr adran yn cael ei [gyhoeddi ar GOV.UK](#) yn 2024.

Ymateb Ar-lein

Er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion, defnyddiwch y system ar-lein pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Ewch i [ymgynghoriadau yr Adran Addysg ar GOV.UK](#) i gyflwyno eich ymateb.

Ffyrdd Eraill o Ymateb

Os, am resymau eithriadol, nad ydych yn gallu defnyddio'r system ar-lein oherwydd eich bod yn defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol, er enghraifft, nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch ofyn a chwblhau fersiwn dogfen Word o'r ffurflen.

Trwy E-bost

Minimumservicelevels.consultation@education.gov.uk

Trwy'r Post

MSL Consultation

Department for Education

Sanctuary Buildings, 20 Great Smith Street

London SW1P 3BT

Dyddiad Cau

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 16 Chwefror 2024.

Cefndir

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion ar gyfer lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau. Mae'n cyflwyno dau ddewis ar gyfer diogelu addysg wyneb yn wyneb ar ddiwrnodau streic. Mae'r dewis cyntaf yn canolbwyntio ar flaenoriaethu presenoldeb ymhlith plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, grwpiau arholi a phlant gweithwyr hanfodol. Mae'r ail ddewis yn canolbwyntio ar bob disgybl sydd mewn ysgol gynradd, a charfannau blaenoriaeth mewn lleoliadau addysg uwchradd ac addysg bellach. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio casglu tystiolaeth ar effeithiau streicio mewn addysg uwch, a'r achos dros lefel gwasanaeth gofynnol sy'n cwmpasu'r sector hwn.
2. Byddai'r lefel gwasanaeth gofynnol yn cael ei chyflwyno drwy reoliadau. Rhaid i unrhyw reoliadau a wneir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn gael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ Senedd y DU.
3. Os byddant yn cael eu gweithredu, byddai'r rheoliadau hyn yn golygu y gallai cyflogwr—ysgol, coleg, awdurdod lleol, neu brifysgol yn yr achos hwn—gyhoeddi hysbysiad gwaith i'w gwneud yn ofynnol i unigolion weithio yn ystod cyfnod o streicio er mwyn cyflawni lefel ofynnol o ddarpariaeth. Pe byddant yn cael eu gweithredu, byddai'r rheoliadau yn cael eu cyflwyno o dan y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023.

Trosolwg o'r Ddeddf

4. Cyflwynwyd y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) yn y Senedd ym mis Ionawr 2023 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf 2023. Mae Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023 yn diwygio Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 er mwyn:
 - sefydlu pwerau fel y gall y llywodraeth wneud rheoliadau i osod lefel gwasanaeth gofynnol mewn rhai gwasanaethau penodol, gan gynnwys addysg, gofal iechyd, tân ac achub, a gwasanaethau trafndiaeth;
 - galluogi cyflogwyr yn y gwasanaethau penodedig hynny i bennu'r gweithlu sydd ei angen, a chyhoeddi hysbysiadau gwaith i gyflawni'r lefel gwasanaeth gofynnol ar ddiwrnod streic, pan fo rheoliadau lefel gwasanaeth gofynnol wedi eu gwneud; ac
 - ychwanegu rhwymedigaeth newydd ar undebau i gymryd camau rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth â hysbysiadau gwaith.

Sut mae lefel gwasanaeth gofynnol yn gweithio

5. Nod Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023 yw cyfyngu ar effeithiau streicio ar fywydau a bywoliaethau y cyhoedd. Ei nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng gallu undebau a'u haelodau i streicio a hawliau'r cyhoedd ehangach i allu defnyddio gwasanaethau allweddol.

6. Pan fo lefel gwasanaeth gofynnol yn cael ei chymhwyso, dylai olygu bod lefel mwy cyson o wasanaeth yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, yn ogystal â lleihad yn yr amgylchiadau lle nad oes unrhyw wasanaethau o gwbl. Yn achos addysg, bydd hyn yn helpu i sicrhau diogelwch ac addysg plant ac i leihau amhariad ar y cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau y gall addysg plentyn barhau cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys drwy addysg o bell pan nad yw addysg wyneb yn wyneb yn bosibl.
7. Yn ymarferol, pan fo cyflogwr yn darparu gwasanaeth a bennir mewn rheoliadau lefel gwasanaeth gofynnol, a phan fo undeb llafur yn cyflwyno rhybudd streicio i'r cyflogwr, caiff y cyflogwr benderfynu cyhoeddi hysbysiad gwaith cyn diwrnod(au) y streic. Disgresiwn cyflogwyr unigol fydd penderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiadau gwaith i gyflawni'r lefel gwasanaeth gofynnol ai peidio. Bwriad y ddeddfwriaeth hon yw darparu offer newydd i leihau unrhyw effeithiau anghymesur yn ystod streiciau, nid atal undebau neu unigolion rhag cymryd camau diwydiannol.
8. Rhaid i'r hysbysiad gwaith nodi'r unigolion y mae'n ofynnol iddynt weithio, a'r gwaith y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni'r lefel gwasanaeth gofynnol yn ystod y cyfnod hwnnw o streicio. Rhaid i'r hysbysiad gwaith gael ei gyhoeddi o leiaf saith niwrnod cyn diwrnod y streic, ond gall y cyflogwr ei amrywio gan hyd at bedwar diwrnod cyn hynny (oni chytunir ar amser diweddarach â'r undeb).

Cwmpas daearyddol

9. Mae hawliau cyflogaeth a dyletswyddau a chysylltiadau diwydiannol yn faterion a gedwir ym Mhrydain Fawr. Mae Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023 yn galluogi'r llywodraeth i gymhwyso lefel gwasanaeth gofynnol i sectorau allweddol ledled Prydain Fawr. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y bydd hyn yn effeithio ar gyflogwyr mewn gwasanaethau datganoledig mewn rhai achosion. Mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar gwmpas daearyddol y rheoliadau a bydd yn parhau i weithio gyda nhw ar fanylion y cynigion hyn. Gan fod cyfraith cyflogaeth wedi ei datganoli yng Ngogledd Iwerddon, mater i Gynulliad Gogledd Iwerddon yw asesu a ddylid cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i lefel gwasanaeth gofynnol gael ei phennu pe byddai achos o streicio.
10. Mae systemau addysg yn amrywio ledled Prydain Fawr. Rydym yn awyddus i ddeall, gan gynnwys drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymgysylltiad â'r llywodraethau datganoledig, y goblygiadau ar y gwahaniaethau hynny wrth osod lefel gwasanaeth gofynnol. Bydd hyn yn helpu i lywio penderfyniad ynghylch a oes angen rheoliadau lefel gwasanaeth gofynnol ledled Prydain Fawr ac, os felly, a yw rheoliadau gwahanol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn briodol.

C: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai lefel gwasanaeth gofynnol ar gyfer addysg gael ei chymhwyso yn gyson ledled Cymru, Lloegr a'r Alban?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Dim gwahaniaeth*

Y cyd-destun cyfreithiol

11. Wrth osod lefel gwasanaeth gofynnol, rhaid cyfiawnhau'r ymyrraeth ag Erthygl 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sef rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu. Credwn fod cyfiawnhad dros y lefelau gwasanaeth gofynnol oherwydd eu bod yn ceisio diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill, gan gynnwys y cyhoedd. Nodir hyn yn y memorandwm ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) wrth iddi gael ei chyflwyno i'r Senedd.
12. Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol, sy'n asiantaeth i'r Cenhedloedd Unedig, wedi datgan bod modd cyfiawnhau lefelau gwasanaeth gofynnol:
 - ar gyfer gwasanaethau, y byddai torri arnynt yn peryglu bywyd, diogelwch personol neu iechyd yr holl boblogaeth neu ran o'r boblogaeth (gwasanaethau hanfodol yng ngwir ystyr y gair);
 - ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol yng ngwir ystyr y gair ond lle gallai rhychwant a hyd streic arwain at argyfwng cenedlaethol difrifol sy'n peryglu cyflyrau byw arferol y boblogaeth; ac
 - mewn gwasanaethau cyhoeddus o bwysigrwydd sylfaenol.

Yr achos dros lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau

13. Collwyd dros 25 miliwn o ddiwrnodau ysgol drwy 10 niwrnod o streicio cenedlaethol a rhanbarthol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gyda hyd at wyth niwrnod o streicio yn effeithio ar unrhyw ddisgybl unigol. Mewn addysg bellach, gwelodd gweithredu diwydiannol gan Undeb Prifysgolion a Cholegau a'r Undeb Addysg Cenedlaethol streiciau am 10 niwrnod a naw niwrnod yn y drefn honno ar draws colegau a chweched dosbarth. Ar ddiwrnodau streic, roedd presenoldeb oddeutu 50%¹ ar draws yr holl ysgolion, ond ni theimlwyd yr effeithiau'n gyfartal ledled y wlad, gyda Llundain yn gweld cyfraddau cau ysgolion cyn uchod â 24%². Hefyd, nid oedd pob ysgol yn blaenoriaethu'r carfannau a nodir yng nghanllawiau anstatudol yr Adran Addysg, sef [Handling strike action in schools](#).
14. Mae colli diwrnodau mewn addysg yn cael effaith negyddol amlwg ar blant. Mae ymchwil yn dangos bod pob diwrnod o absenoldeb yn lleihau lefelau cyrhaeddiad.³ Mae disgyblion sy'n perfformio'n well ar ddiwedd yr ysgol gynradd ac uwchradd yn colli llai o ddyddiau na'r rhai nad ydynt yn perfformio gystal.⁴ Myfyrwyr â phresenoldeb uwch sy'n cael y canlyniadau TGAU a Safon Uwch gorau. Mae'r effeithiau hyn yn arbennig o amlwg ymhlith rhai grwpiau disgyblion, yn enwedig plant a phobl ifanc sy'n fwy agored i niwed. Mae'r golled addysg a brofodd llawer o blant yn ystod y pandemig wedi gwaethygu'r effeithiau hyn.
15. Mae data yr Adran Addysg hefyd yn dangos bod plant ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2 na chyrhaeddodd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg wedi colli pedwar diwrnod arall fesul blwyddyn ysgol ar gyfartaledd o'u cymharu â'r rhai yr oedd eu perfformiad yn well na'r safon ddisgwyliedig. Yn yr un modd, yn yr ysgol uwchradd, roedd disgyblion nad oeddent wedi cyflawni gradd 9 i 4 mewn Saesneg a mathemateg wedi colli 10 niwrnod arall ar gyfartaledd yn ystod y Cyfnod Allweddol o'u cymharu â'r rhai a gyflawnodd radd 9 i 5 mewn Saesneg a mathemateg.
16. Gall absenoldeb estynedig effeithio ar iechyd meddwl plant hefyd. Mae ymchwil allanol o'r pandemig yn dangos y gallai effaith colli chwe wythnos o'r ysgol gyfateb yn fras i blant sy'n arddangos tri neu bedwar ymddygiad negyddol difrifol neu anhawster emosiynol o'r newydd.⁵

¹ <https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/pupil-attendance-in-schools/2023-week-29>

² <https://www.gov.uk/government/publications/school-closures-during-the-2023-teacher-strike>

³ Sims, S. 2020. "School Absences and Pupil Achievement." CEPEO Briefing Note No. 1. London, UK: Centre for Education Policy and Equalising Opportunities, UCL Institute of Education

⁴ [Why is school attendance so important and what are the risks of missing a day?—The Education Hub \(blog.gov.uk\)](#)

⁵ [New evidence shows how school closures hit children's mental health hard | Prifysgol Surrey](#)

17. Cydnabyddir bod gan streiciau mewn ysgolion a cholegau y posibilrwydd o gael effeithiau pellgyrhaeddol ar aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r anghydfod. Oherwydd nifer y plant a phobl ifanc sydd mewn addysg, a nifer y plant y mae angen gofalu amdanynt pan fydd ysgolion neu golegau wedi cau, gall canlyniadau o'r fath arwain at effeithiau sy'n tarfu ar rieni a gofalwyr. Cyn y streiciau ysgol, arolygwyd rhieni sy'n gweithio ynghylch sut y byddai streiciau addysg yn effeithio arnynt. Dywedodd oddeutu 60% y byddai'r streiciau yn effeithio ar eu gwaith, dywedodd 31% y byddai'n rhaid iddynt weithio llai o oriau, a dywedodd 28% na fyddent yn gallu gweithio.⁶
18. Wrth weithredu lefel gwasanaeth gofynnol, mae'r llywodraeth yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng lleihau'r niwed i addysg disgyblion a myfyrwyr, a chydabod gallu unigolion i streicio.

⁶ [Public opinions and social trends, Great Britain—Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Cymariaethau rhyngwladol

19. Mae gan wledydd eraill lefelau gwasanaeth gofynnol ar waith eisoes i gyfyngu ar amhariad ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gynnwys addysg. Mewn rhai gwledydd, ni chaiff athrawon na gweision cyhoeddus eraill streicio. Er enghraifft, yn yr Almaen, gweision sifil yw athrawon ar y cyfan. Pan maent yn dod o dan y categori hwn, nid ydynt yn cael streicio.⁷
20. Mae gan Ffrainc ddeddfwriaeth lefel gwasanaeth gofynnol sy'n cwmpasu ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd cyhoeddus (ar gyfer disgyblion 3–10 oed), sy'n sicrhau bod goruchwyliaeth ar y safle i'r plant, hyd yn oed os nad yw'r ysgol yn gallu cynnal gwersi arferol. Darperir hyn gan ysgolion lle mae llai na 25% o athrawon ar streic a chan awdurdodau lleol os yw 25% neu fwy o'r athrawon ar streic. Hefyd, mae'n rhaid i athrawon meithrin ac ysgolion cynradd roi rhybudd ymlaen llaw o'u bwriad i streicio.⁸
21. Yn yr Eidal, diffinnir gwasanaethau hanfodol at ddibenion streicio, gan gynnwys addysg, yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cydbwysu'r hawl i streicio â hawliau cyfansoddiadol eraill, gan gynnwys yr hawl i gael addysg. Nodir gweithrediad lefel gwasanaeth gofynnol mewn cytundebau ar y cyd.⁹ Mewn addysg, os bydd streic, mae'n rhaid i ysgolion barhau â gwasanaethau a ystyrir yn hanfodol, gan gynnwys arholiadau, goruchwyllo disgyblion, gwasanaethau ffreutur a rheoli cyfleusterau.^{10,11} Mae'r gyfraith a chytundebau cysylltiedig hefyd yn cwmpasu prifysgolion a mathau eraill o addysg uwch.

⁷ [Bundesverfassungsgericht—Press—Ban on strike action for civil servants is constitutional](#)

⁸ [Article L133-4—Code de l'éducation—Légifrance \(legifrance.gouv.fr\)](#)

⁹ [House of Commons Research Briefing: Strikes \(Minimum Service Levels\) Bill 2022–23](#)

¹⁰ [Cyfnodolyn Swyddogol \(gazzettaufficiale.it\)](#)

¹¹ [Le modalità di attuazione del diritto di sciopero in ambito scolastico—Gli adempimenti del dirigente—Giustoscuola](#)

Cynigion

Lleoliadau o fewn cwmpas lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau

22. Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r lleoliadau addysg canlynol fod o fewn cwmpas lefel gwasanaeth gofynnol. Mae hyn yn cynnwys ysgolion arbennig a phreswyl os ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau a restrir:

- Lleoliadau addysg yn y sector ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth:
 - Ysgolion academi (gan gynnwys ysgolion am ddim, academiâu arbennig, ac ysgolion arbennig am ddim) ac academiâu darpariaeth amgen (gan gynnwys ysgolion darpariaeth amgen am ddim); ac
 - Ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys ysgolion sylfaen, ysgolion sefydledig arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig cymunedol.
- 16–19 o academiâu, gan gynnwys 16–19 o ysgolion am ddim ac ysgolion diogel.
- Lleoliadau addysg yn y sector AB statudol¹²:
 - Sefydliadau a gynhelir gan gorfforaethau addysg bellach;
 - Sefydliadau a gynhelir gan gorfforaethau coleg a chweched dosbarth; a
 - Sefydliadau a ddynodir o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Lleoliadau sydd y tu allan i gwmpas lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau

23. Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r lleoliadau addysg canlynol fod y tu allan i'r cwmpas. Yn y sectorau hyn, mae aelodaeth undeb yn is ar y cyfan, a chredwn fod y tebygolrwydd y bydd y lleoliadau hyn yn wynebu amhariad sylweddol o ganlyniad i streicio yn isel:

- Blynyddoedd cynnar (ac eithrio'r flwyddyn dderbyn yn y lleoliadau uchod);
- Ysgolion annibynnol;
- Darparwyr hyfforddiant annibynnol, ysgolion arbennig nas cynhelir, a sefydliadau ôl-16 arbenigol; a
- Lleoliadau y tu allan i'r ysgol, a darparwyr gofal plant cofleidiol.

¹² Fel y'i diffinnir o dan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

C: A ydych chi'n cytuno â'r lleoliadau y cynigir eu cael o fewn y cwmpas a'r tu allan i'r cwmpas?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Dim gwahaniaeth*

Egwyddorion cynllunio a chwmpas ar gyfer lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau

24. Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai lefel gwasanaeth gofynnol mewn ysgolion a cholegau fod â'r nod o wneud yr hyn a ganlyn:

- sicrhau y gall addysg plentyn barhau cyn belled ag y bo modd yn ystod cyfnod o streicio, gan gynnwys drwy addysg o bell pan nad yw addysgu wyneb yn wyneb yn bosibl;
- lliniaru yn erbyn addysg bellach a gollir i ddisgyblion a myfyrwyr;
- sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed;
- caniatáu i blant a phobl ifanc baratoi, heb amhariad, ar gyfer arholiadau cyhoeddus ac asesiadau ffurfiol;
- cynnal y gwaith o redeg gwasanaethau penodedig yn Neddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023.

25. Mae'n amlwg bod angen cydbwysu'r amcanion hyn â gallu gweithluoedd i streicio.

26. Penaethiaid a phrifathrawon sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu staff, plant a phobl ifanc. Credwn y dylent fod â'r hyblygrwydd i bennu'r lefelau staffio priodol sy'n rhesymol angenrheidiol i gyflawni lefel gwasanaeth gofynnol yn eu lleoliad. Rydym yn cynnig y dylai cyflogwyr allu penderfynu pa weithwyr a faint o weithwyr sy'n cael eu nodi mewn hysbysiad gwaith i gyflawni'r lefel gwasanaeth gofynnol, yn hytrach na'r llywodraeth yn pennu cymarebau neu ganrannau penodol.

27. Disgwyliwn y gallai'r rhai a enwir mewn hysbysiad gwaith gynnwys:

- penaethiaid neu brifathrawon;
- athrawon a darlithwyr, gan gynnwys cydlynwyr anghenion addysgol arbennig;
- cynorthwywyr addysgu;
- staff cymorth addysgu a dysgu;
- arweinwyr diogelu dynodedig;

- staff gweinyddol; a
- staff eraill nad ydynt yn addysgu sy'n bwysig o ran rhedeg y lleoliad, megis gofalwyr a thechnegwyr, glanhawyr a staff cegin.

C: A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion cynllunio ar gyfer y lefel gwasanaeth gofynnol?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Amherthnasol*

Addysg o bell

28. Ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer presenoldeb ar ddiwrnodau streic o dan gynnyg 1 neu gynnyg 2 isod, byddem yn disgwyl i ysgolion wneud pob ymdrech i roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer addysg o bell. Mae hyn yn gydnaws â chanllawiau anstatudol yr Adran Addysg, [Handling strike action in schools](#), sy'n pennu, fel y bo'n bosibl, y dylai ysgolion ddarparu addysg o bell yn unol â [Providing remote education: guidance for schools](#) yr Adran Addysg.

29. Gwyddom o dystiolaeth fod darparu addysg o bell eisoes yn rhywbeth y mae rhieni'n disgwyl i ysgolion ei gyflawni. Canfu tystiolaeth a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg drwy'r Panel Rhieni, Disgyblion a Dysgwyr (PPLP) ym mis Mehefin 2022 fod oddeutu dau draean o rieni (65%) yn dweud y byddent yn disgwyl i'r ysgol ddarparu addysg o bell pe na fyddai eu plentyn yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd ei bod wedi cau.¹³

C: A ydych chi'n cytuno â'r dull addysgu o bell?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Amherthnasol*

C: Beth yw'r heriau o ran darparu addysg o bell ar ddiwrnodau streic?

C: A ydych chi'n ymateb â diddordeb mewn:

- *Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion a/neu Addysg Bellach*
- *Addysg uwch*
- *Pob sector*

¹³ [Parent, Pupil and Learner Panel—June Wave](#)

Cynnig 1: carfannau blaenoriaeth mewn ysgolion a cholegau

30. Un dewis ar gyfer pennu lefel gwasanaeth gofynnol yw blaenoriaethu presenoldeb ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc. Dyma'r dull a nodir yng nghanllawiau anstatudol yr Adran Addysg, [Handling strike action in schools](#), a ddilynwyd gan lawer o ysgolion, i reoli streiciau hyd yma. Y tair carfan a enwir yn y canllawiau hyn yw:

- Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed;
- disgyblion a myfyrwyr y disgwylir iddynt sefyll arholiadau cyhoeddus ac asesiadau ffurfiol;
- plant gweithwyr hanfodol.

31. Mae Cynnig 1 yn pennu lefel gwasanaeth gofynnol a fyddai'n blaenoriaethu presenoldeb ar gyfer yr un tair carfan.

Plant a Phobl Ifanc sy'n Agored i Niwed

32. Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn parhau i gael eu diogelu yn brif flaenoriaeth i'r llywodraeth. Mae ysgolion a cholegau yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu ac adnabod disgyblion a myfyrwyr efallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

33. Yn ystod streiciau y flwyddyn academaidd ddiwethaf, dim ond oddeutu 50% o blant a phobl ifanc agored i niwed a fynychodd yr ysgol.¹⁴ Gwyddom fod cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed eisoes yn is. Er enghraifft:

- Wyth y cant o'r plant sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2), o'u cymharu â 59% o'r holl ddisgyblion.¹⁵
- Wyth ar hugain y cant o'r disgyblion sydd â Chynllun Amddiffyn Plant, 31% o'r Plant sy'n Derbyn Gofal a 29% o'r rhai sydd â Chynlluniau Plant Mewn Angen sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar ddiwedd CA2.¹⁶

¹⁴ Yn seiliedig ar ddadansoddiad pellach o ddata presenoldeb a gyhoeddwyd yn <https://www.gov.uk/government/publications/school-closures-during-the-2023-teacher-strike> a [Pupil attendance in schools, Week 29 2023—Explore education statistics—GOV.UK \(explore-education-statistics.service.gov.uk\)](#) Presenoldeb plant Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal o gymharu â phresenoldeb pob plentyn.

¹⁵ [Key stage 2 attainment, Academic year 2022/23—Explore education statistics—GOV.UK \(explore-education-statistics.service.gov.uk\)](#)

¹⁶ [Outcomes for children in need, including children looked after by local authorities in England, Reporting year 2022—Explore education statistics—GOV.UK \(explore-education-statistics.service.gov.uk\)](#)

- Cyflawnodd 22.5% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) raddau 5 neu uwch mewn TGAU Saesneg a mathemateg, o'u cymharu â 55.8% o'r disgyblion na nodwyd bod ganddynt AAA.¹⁷

34. Byddai lefel gwasanaeth gofynnol sy'n blaenoriaethu'r grwpiau hyn yn helpu i sicrhau nad yw addysg a gollir oherwydd streic yn effeithio'n anghymesur ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

35. Mae'r llywodraeth yn cynnig defnyddio diffiniadau sefydledig ar gyfer y garfan hon:

- a) Plant sydd â chynllun plentyn mewn angen;
- b) Plant sydd ar gynllun amddiffyn plant;
- c) Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol;
- d) Plant a phobl ifanc sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal 0–25 oed;
- e) Plant neu bobl ifanc sy'n derbyn cymorth AAA.

C: A ydych chi'n cytuno â'r grwpiau plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a nodir?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Dim gwahaniaeth*

C: Pa effaith ar a) lles a b) cyrhaeddiad y mae colli diwrnod neu fwy o'r ysgol neu'r coleg oherwydd streic yn ei chael ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed?

¹⁷ [Special educational needs and disability: an analysis and summary of data sources \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Grwpiau arholiadau

36. Mae arholiadau ac asesiadau yn bwyntiau hanfodol yn addysg person ifanc. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn angenrheidiol er mwyn rhyddhau cyfleoedd astudiaeth pellach neu ymuno â'r farchnad lafur. Dylid blaenoriaethu presenoldeb plant a myfyrwyr sydd ar fin sefyll arholiadau ac asesiadau ffurfiol neu statudol, er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial. Gall colli addysg effeithio ar berfformiad plant mewn arholiadau ac asesiadau y maent yn eu sefyll y flwyddyn honno. Gall colli ysgol hyd yn oed am ddiwrnod olygu bod plentyn yn llai tebygol o gael graddau da, a gall hyn gael effaith niweidiol ar ei gyfleoedd mewn bywyd. Po fwyaf o ddyddiau a gollir, y mwyaf yw'r effaith.
37. Mae'r llywodraeth yn cynnig bod y lefel gwasanaeth gofynnol yn canolbwyntio ar ddiogelu myfyrwyr sy'n sefyll asesiadau sydd wedi eu hamserlennu'n genedlaethol, fel y'u cyhoeddir gan Standards and Testing Agency (STA) neu sefydliadau dyfarnu. Rhaid cynnal yr arholiadau neu'r asesiadau ffurfiol hyn ar y dyddiad a'r amser a ddangosir ar yr amserlen (neu yn ystod cyfnod penodol o amser). Mewn rhai achosion, mae cyfleoedd i aildrefnu neu ailsefyll yr arholiadau neu'r asesiadau ffurfiol hyn os bydd amhariad yn gyfyngedig.¹⁸
38. Byddai'r lefel gwasanaeth gofynnol yn gymwys i bob unigolyn sy'n disgwyl arholiadau perthnasol neu asesiadau ffurfiol yn ystod yr un flwyddyn academaidd, ni waeth pryd yn y flwyddyn academaidd y bo'r streic, neu'r arholiad, yn digwydd. Er enghraifft, o dan y cynnig hwn, byddai myfyriwr blwyddyn 11 sydd ag arholiadau TGAU ym mis Mai yn cael blaenoriaeth i fynd i'r ysgol ar ddiwrnod streic ym mis Hydref.
39. Mewn addysg gynradd, mae'r llywodraeth yn cynnig bod y disgyblion canlynol o fewn y cwmpas:
- disgyblion blwyddyn 6 sy'n sefyll asesiadau cwricwlwm cenedlaethol diwedd CA2; a
 - disgyblion sy'n cymryd rhan mewn treialon CA2 statudol, megis y treial angor.
40. Mae'r asesiadau hyn yn hanfodol i sicrhau bod plentyn yn gweithio ar y disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, neu wrth hysbysu a oes angen cymorth pellach arno i sicrhau sgiliau allweddol mewn Saesneg a mathemateg, i'w baratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd.
41. Mae'r llywodraeth yn cynnig bod disgyblion sy'n sefyll asesiadau cynradd eraill, megis asesiad sylfaenol y dosbarth derbyn, asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 1 (CA1), gwiriad sgrinio ffoneg a gwiriad tablau llusgi y tu allan i'r cwmpas. Nid yw profion

¹⁸ Yn achos CA2, mae rhai amgylchiadau sy'n caniatáu aildrefnu ar gyfer nifer cyfyngedig o resymau, megis absenoldeb disgybl, ond mae'n dal yn ofynnol iddynt fod ar ddiwrnod a gymeradwyir gan STA.

diwedd CA1 bellach yn statudol ac nid oes rhaid cyflawni'r asesiadau eraill a restrir ar ddiwrnod penodol, sy'n golygu bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i'w trefnu neu eu haildrefnu o amgylch diwrnodau streic. Yn ogystal â hynny, mae'r asesiadau hyn yn cael eu gweinyddu a'u marcio gan staff ysgolion yn hytrach nag aseswyr allanol. Felly, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd streic yn effeithio'n sylweddol ar yr asesiadau hyn.

42. Mewn addysg uwchradd ac addysg bellach, mae'r llywodraeth yn cynnig bod y myfyrwyr canlynol o fewn y cwmpas:

- Myfyrwyr sy'n cymryd TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a Chymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol, gan gynnwys Lefelau T, a chymwysterau cenedlaethol eraill;
- Myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cymryd rhan yn y Prawf Cyfeirio Cenedlaethol (National Reference Test).

43. Mae'r arholiadau a'r asesiadau ffurfiol hyn yn dod â mwy o risgiau i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu symud ymlaen i astudio ymhellach, at addysg uwch, neu'r farchnad lafur os amharir arnynt. Mae'r Prawf Cyfeirio Cenedlaethol yn mesur perfformiad myfyrwyr blwyddyn 11 mewn Saesneg a mathemateg ac yn cymharu eu perfformiad o'u cymharu â myfyrwyr mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'n darparu ffynhonnell o dystiolaeth ychwanegol werthfawr y mae byrddau arholi yn ei defnyddio wrth bennu ffiniau graddau mewn TGAU Saesneg a mathemateg.

44. Mae'n gyffredin i bobl ifanc ac oedolion sefyll arholiadau neu asesiadau ar yr un pryd yn yr un lleoliad. Mae hyn yn enwedig o wir mewn rhai colegau AB cyffredinol. Nid oes terfyn oedran ar gyfer myfyrwyr sydd o fewn y cwmpas ar gyfer lefel gwasanaeth gofynnol. Felly, gallai lefel gwasanaeth gofynnol gwmpasu myfyrwyr sy'n oedolion, ar yr amod â'u bod yn astudio un o'r cymwysterau uchod yn un o'r lleoliadau cymwys. Nid yw oedolion sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau mewn lleoliadau addysg i oedolion y tu allan i'r sector AB statudol o fewn y cwmpas, gan nad oes dystiolaeth o risg sylweddol o amhariad o ganlyniad i streiciau.

45. Mae'r llywodraeth yn cynnig bod prentisiaid y tu allan i'r cwmpas. Unwaith eto, rydym o'r farn bod risg gyfyngedig o gyflawni Asesiadau Pwynt Terfynol os bydd gweithredu diwydiannol. Mae hyblygrwydd yn y system hon i weithio o amgylch oedi rhagweladwy ac annisgwyl, er enghraifft aildrefnu Asesiadau Pwynt Terfynol, sy'n caniatáu i unrhyw risgiau gael eu lliniaru.

46. Yn rhan o lefel gwasanaeth gofynnol, byddem yn disgwyl i ysgolion a cholegau gefnogi myfyrwyr wrth iddynt baratoi am arholiadau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r hyn a ganlyn:

- gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag asesiadau megis dosbarthiadau adolygu a ffug arholiadau;

- sicrhau bod myfyrwyr yn dysgu'r cwrs cyfan ar gyfer yr arholiad neu'r asesiad.

C: Pa effeithiau y mae streiciau wedi eu cael ar y broses o gyflawni arholiadau a/neu'r broses o baratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau ac asesiadau?

C: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig ar gyfer grwpiau arholi?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (Rhowch ragor o fanylion os ydych yn anghytuno)*
- *Dim gwahaniaeth*

C: Myfyrwyr pa flwyddyn arholi y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer presenoldeb ar ddiwrnodau streicio? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:

- *Y rhai sydd ag arholiadau neu asesiadau o fewn mis i streicio*
- *Y rhai sydd ag arholiadau neu asesiadau yr un flwyddyn academaidd â'r streicio*
- *Arall (nodwch)*
- *Ansicr*

Plant gweithwyr hanfodol

47. Ar ddiwrnodau streic ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth yn argymhell bod plant gweithwyr hanfodol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol. Byddai lefel gwasanaeth gofynnol ar gyfer y grŵp hwn yn ceisio sicrhau bod rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid a gyflogir mewn sectorau penodol yn gallu parhau i weithio. Byddai'n ceisio diogelu a chynnal gwasanaethau penodedig yn Neddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023 a lleihau effeithiau gweithredu diwydiannol ar y rhai sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn.
48. Diffinnir gweithwyr hanfodol ar hyn o bryd yng nghanllawiau cynllunio brys y llywodraeth ar gyfer lleoliadau addysg.¹⁹ Cynlluniwyd y rhestr hon yn ystod y pandemig er mwyn diogelu rhag amhariad parhaus ar yr economi. Fe'i lluniwyd ar adeg pan oedd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid yn wynebu anawsterau ychwanegol wrth wneud trefniadau gofal plant eraill oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol nad ydynt bellach yn berthnasol. Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn bod y rhestr gweithwyr hanfodol presennol yn rhy eang at ddibenion lefel gwasanaeth gofynnol.
49. Mae'r llywodraeth yn cynnig ailddiffinio'r rhestr er mwyn canolbwyntio ar weithwyr yn y gwasanaethau penodedig a restrir yn Neddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023, yn ogystal â phobl sydd mewn gweithluoedd nad ydynt yn gallu streicio. Mae hyn yn cynnwys:
- y rhai mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau tân ac achub, gwasanaethau addysg, gwasanaethau trafniadaeth, diogelwch ffiniau a datgomisiynu gosodiadau niwclear;
 - y rhai sy'n methu â streicio, megis swyddogion heddlu, aelodau o'r lluoedd arfog a swyddogion carchar.
50. Rydym yn cynnig nad yw'r lefel gwasanaeth gofynnol yn berthnasol ond i ddisgyblion a myfyrwyr y mae ganddynt ddau riant, gofalwr neu warcheidwad sy'n weithwyr hanfodol, neu i weithwyr hanfodol mewn aelwyd un riant.
51. Rydym hefyd yn cynnig nad yw'r lefel gwasanaeth gofynnol yn berthnasol pan fo plant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain. Nid oes oedran cyfreithiol o ran pryd yr ystyrir plentyn yn ddigon hen i gael ei adael ar ei ben ei hun. Mae [canllawiau](#) y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant yn nodi mai 'yn anaml iawn y mae plant o dan 12 oed yn ddigon aeddfed i gael eu gadael ar eu pennau eu hunain am gyfnod hir'. Felly, rydym yn awgrymu y dylai plant hyd at a chan gynnwys blwyddyn 7 fod o fewn y cwmpas.

¹⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/emergency-planning-and-response-for-education-childcare-and-childrens-social-care-settings/vulnerable-children-and-young-people-and-critical-workers>

C: A ydych chi'n cytuno â'r rhestr gweithwyr hanfodol arfaethedig?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (eglwurwch pam)*
- *Dim gwahaniaeth*

C: Er mwyn i blentyn fod o fewn y cwmpas mewn aelwydydd dau riant, a ydych chi'n cytuno y dylai'r ddau riant fod yn weithwyr hanfodol?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Dim gwahaniaeth*

C: O ran plant gweithwyr hanfodol, a ydych chi'n cytuno mai plant hyd at, a chan gynnwys, blwyddyn 7 yn unig a ddylai fod o fewn y cwmpas?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Dim gwahaniaeth*

C: [Dim ond ar gyfer ymatebwyr sy'n weithwyr hanfodol] Pa mor rhwydd yw trefnu gofal plant arall ar ddiwrnodau streic ysgol?

- *Rhwydd iawn*
- *Rhwydd*
- *Anodd*
- *Anodd iawn*
- *Amherthnasol*

Cwestiynau Cyffredinol am gynnig 1

C: A ydych chi'n cytuno â'r tair carfan flaenoriaeth a gynnigir?

- *Cytuno*
- *Anghytuno (os ydych chi'n anghytuno, neu'n credu y dylid cynnwys carfannau eraill, nodwch pa rai a pham)*
- *Dim gwahaniaeth*

C: Beth sydd angen ei roi ar waith i gyflawni'r cynnig hwn? Ystyriwch nifer y disgyblion a'r myfyrwyr a gwmpesir gan y cynnig lefel gwasanaeth gofynnol hwn, faint o aelodau staff y byddai eu hangen arnoch ac unrhyw ystyriaethau cyflawni eraill wrth ateb y cwestiwn hwn.

Cynnig 2: dull hybrid (pob disgybl mewn carfannau cynradd a blaenoriaeth mewn lleoliadau uwchradd ac AB)

52. O ystyried y swyddogaeth hanfodol y mae addysg yn ei chwarae yn natblygiad plant, mae'r llywodraeth yn cydnabod bod achos cryf dros gefnogi grŵp mwy o blant, yn enwedig disgyblion iau rhwng 4 ac 11 oed, drwy lefel gwasanaeth gofynnol. Felly, rydym yn gofyn am safbwyntiau ar ddull a fyddai'n caniatáu i bob disgybl ysgol gynradd fynd i'r ysgol ar ddiwrnodau streic, yn ogystal â'r carfannau blaenoriaeth a amlinellir yng nghynnig 1 mewn ysgolion uwchradd a cholegau.²⁰
53. Byddai'r dull hwn yn canolbwyntio ar blant iau y mae colli ysgol, pan fo ysgol yn cau oherwydd streic, yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Yn gyffredinol, mae plant iau yn llai abl i astudio'n annibynnol²¹ ac mae amhariad ar eu harferion ac absenoldeb o'u hamgylchedd addysgol arferol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Yn gyfrannol, mae dyddiau ysgol a gollir hefyd yn effeithio'n fwy ar bobl iau oherwydd eu bod yn colli cyfran uwch o'u haddysg na disgyblion hŷn.
54. Mae adroddiadau gan Rising Star Assessments, a'r Sefydliad Gwaddol Addysgol i gyd wedi dangos bod colli ysgol o ganlyniad i'r pandemig wedi cael mwy o effaith ar blant iau.²² Er enghraifft, dychwelodd cyflawniad mewn asesiadau darllen CA2 at lefelau uwch na chyn y pandemig yn 2021/22, ond mae'r cyflawniad darllen CA1 yn parhau i fod ymhell islaw'r lefelau hyn (cyrhaeddodd 68% ohonynt y safon eleni, o'u cymharu â 75% cyn y pandemig).
55. Gwyddwn hefyd fod y sgiliau sylfaenol a ddysgir yn ystod addysg gynradd yn allweddol ar gyfer cyrhaeddiad yn y dyfodol. Mae plant sydd ar ei hôl hi yn eu datblygiad iaith pan maent yn bump oed chwe gwaith yn llai tebygol o gyrraedd y safon ddisgwyliedig yn Saesneg pan fyddant yn 11 oed, ac maent oddeutu 11 gwaith yn llai tebygol o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg pan fyddant yn cyrraedd yn yr oedran hwnnw.²³
56. Byddai'r dewis hwn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer ysgolion uwchradd a cholegau er mwyn blaenoriaethu presenoldeb ymhlith y tair carfan flaenoriaeth a nodir yng nghynnig 1.

²⁰ Mae hyn yn cyfeirio at ddisgyblion sydd mewn lleoliadau ysgol cynradd, yn hytrach na phlant oedran ysgol cynradd.

²¹ [Coronavirus and homeschooling in Great Britain—Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

²² [RS Assessment from Hodder Education—Primary Assessments \(risingstars-uk.com\)](https://risingstars-uk.com); [NEW: Pandemic adversely affected young children's development, ... | EEF \(educationendowmentfoundation.org.uk\)](https://educationendowmentfoundation.org.uk)

²³ [Early language development: time to change the story \(savethechildren.org.uk\)](https://savethechildren.org.uk)

C: Beth yw eich profiad o effeithiau streiciau ar blant 4–7 oed (CA1)? Os nad yw'n berthnasol, nodwch 'amherthnasol' yn y blwch.

C: Beth yw eich profiad o effeithiau streiciau ar blant 7–11 oed (CA2)? Os nad yw'n berthnasol, nodwch 'amherthnasol' yn y blwch.

C: Beth sydd angen ei roi ar waith i gyflawni'r cynnig hwn? (Ystyriwch nifer y disgyblion a gwmpesir gan y cynnig lefel gwasanaeth gofynnol hwn, faint o aelodau staff y byddai eu hangen arnoch ac unrhyw ystyriaethau cyflawni eraill wrth ateb y cwestiwn hwn)

C: A yw'n well gennych gynnig 1 neu gynnig 2?

- *Cynnig 1*
- *Cynnig 2*
- *Dim un o'r rhain*

Defnyddio rhestrau dyletswyddau am gyfnodau estynedig o streicio yng nghynnig 1 a chynnig 2

57. Am gyfnodau estynedig o streicio (pum niwrnod ysgol neu fwy yn olynol), mae'r llywodraeth yn cynnig bod ysgolion a cholegau yn defnyddio rhestrau dyletswyddau i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael rhywfaint o addysg wyneb yn wyneb ac ar y safle. Byddai hyn yn ogystal ag unrhyw brosesau addysg o bell a fyddai gan ysgolion ar waith.

58. Boed yng nghyd-destun cynnig 1 neu gynnig 2 uchod, credwn y dylai ysgolion a cholegau ddefnyddio rhestrau dyletswyddau pan fo streicio sy'n para pum niwrnod ysgol neu fwy yn olynol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael rhywfaint o addysg wyneb yn wyneb yn ystod cyfnodau streicio estynedig, ac na fyddai gan yr un plentyn gyfnod parhaus y tu allan i'r ysgol pe byddai cyfnodau estynedig o streicio. Byddai'r defnydd o restrau dyletswyddau *yn ogystal* â'r ddarpariaeth ar gyfer y carfannau blaenoriaeth yng nghynnig 1, a phawb a gwmpesir gan gynnig 2.

C: A ydych chi'n cytuno â'r defnydd o restrau dyletswyddau mewn ysgolion a cholegau yn ystod cyfnodau hir o streicio?

- *Ydw*
- *Nac ydw (rhowch fanylion i gefnogi eich ymateb, os dymunwch)*
- *Amherthnasol*

C: Mewn cysylltiad â defnyddio rhestrau dyletswyddau, a ydych chi'n credu mai pum niwrnod olynol o streicio yw'r cyfnod cywir o amser pryd y dylid rhoi rhestrau dyletswyddau ar waith?

- *Ydw, dyma'r cyfnod cywir o amser*
- *Nac ydw, dylai fod yn fyrrach (nodwch)*
- *Nac ydw, dylai fod yn hirach (nodwch)*
- *Arall (nodwch)*
- *Amherthnasol*

Goblygiadau gweithlu i ysgolion a cholegau

59. Mae pob ysgol a choleg yn gweithredu'n wahanol ac, yn naturiol, bydd amrywiaeth mewn cymarebau rhwng staff a myfyrwyr ar draws ysgolion a cholegau. Mater i ysgolion a cholegau fydd pennu eu gofynion gweithlu penodol i ddarparu lefel gwasanaeth gofynnol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod gofynion y gweithlu yn ystyriaeth allweddol wrth ddiffinio'r lefel gwasanaeth gofynnol cywir—gan gydnabod y cydbwysedd â hawl gweithluoedd i streicio. Felly, byddem yn croesawu tystiolaeth ar nifer a dadansoddiad y staff y credwch y byddai eu hangen i gyflawni'r lefel gwasanaeth gofynnol ar draws pob cynnig.

C: [Dim ond ar gyfer ymatebwyr sy'n gyflogwyr] Pa nifer neu gyfran o'ch gweithlu fyddai eu hangen yn eich lleoliad i gyflawni'r dewisiadau hyn? Rhowch wybodaeth am y mathau o staff a'r swyddogaethau sydd eu hangen. Nodwch 'Amherthnasol' os nad ydych yn gyflogwr.

Dull carfan flaenoriaeth (Cynnig 1):

[Testun rhydd]

Dull hybrid (Cynnig 2):

[Testun rhydd]

C: Nodwch pa ran o'r arolwg yr hoffech ymateb iddi nesaf:

- *Mae fy niddordeb yn benodol yn y blynyddoedd cynnar, ysgolion a/neu addysg bellach – hoffwn hepgor y cwestiynau am addysg uwch*
- *Mae fy niddordeb ym mhob sector – hoffwn ymateb i gwestiynau am addysg uwch hefyd*

Yr Achos dros lefel gwasanaeth gofynnol mewn addysg uwch

60. Mae myfyrwyr a threthdalwyr yn buddsoddi'n sylweddol yn y system addysg uwch ac maent yn haeddu gweld enillion ar y buddsoddiad hwn. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gael profiad addysgol llawn, sy'n cynnwys darlithoedd a gyflwynir yn ôl yr amserlen, a'r gallu i ddefnyddio'r holl gyfleusterau perthnasol.
61. Mae streicio parhaus yn y sector addysg uwch wedi achosi amhariad annerbyniol i'r ddarpariaeth addysg mewn llawer o brifysgolion. Mae'r llywodraeth yn ymwybodol o amrywiaeth o effeithiau ar draws prifysgolion, gan gynnwys:
- rhai darlithoedd yn cael eu canslo heb unrhyw ymdrech i wneud iawn am yr addysg hon y mae myfyrwyr yn ei cholli;
 - pryderon penodol ynghylch sut mae streicio wedi peryglu cyrsiau sy'n cynnwys isafswm oriau cyswllt; ac
 - effaith staff anacademaidd yn streicio ar weithgarwch sy'n cael ei sbarduno gan ymchwil, yn ogystal â gwyddoniaeth a phynciau peirianeg.
62. Rydym hefyd yn gwybod na chafodd nifer o fyfyrwyr eu canlyniad gradd yn ôl y disgwyl. Arweiniodd hyn at rai myfyrwyr yn cael problemau wrth gael eu derbyn ar gyrsiau ôl-raddedig, wrth ddechrau mewn cyflogaeth ac, i rai myfyrwyr rhyngwladol, wrth sicrhau fisâu.
63. Mae'n bwysig sicrhau y gall myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr fod yn hyderus y byddant yn cael yr addysg y maent yn ei disgwyl ac wedi talu amdani pan fyddant yn mynd i'n system addysg uwch.
64. Amcan y llywodraeth yw deall yn fanylach effaith streicio ar fyfyrwyr, ar ein prifysgolion, ac ar ein cymdeithas. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn effaith y boicot marcio ac asesu; deall a fyddai *lefel gwasanaeth gofynnol* ar gyfer addysg uwch yn effeithiol o ran lliniaru effaith streicio; a chasglu safbwyntiau ar yr hyn y dylai lefel gwasanaeth gofynnol ei gwmpasu.

Lefel gwasanaeth gofynnol mewn addysg uwch

65. Rydym yn ceisio safbwyntiau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith gweithredu diwydiannol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf ar brifysgolion, myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Am y tro, mae gennym ddi-ddordeb mewn safbwyntiau ar ba ffurf y gallai lefel gwasanaeth gofynnol ei chymryd yn y sector addysg uwch. Os awn ar drywydd cynlluniau i roi rheoliadau addysg uwch ar waith, byddwn yn ystyried a ddylid cynnal ymgynghoriad pellach ar gynigion lefel gwasanaeth gofynnol manwl ar gyfer AU.

Streicio

C: Pa grwpiau o staff aeth ar streic yn eich prifysgol chi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- *Staff academaidd*
- *Staff technegol*
- *Staff proffesiynol*
- *Staff gweinyddol*
- *Arall (nodwch)*

C: Beth oedd yr effaith yn eich prifysgol chi?

- *Dim effaith*
- *Effaith fach*
- *Effaith gymedrol*
- *Effaith fawr*
- *Ansicr*

C: Pa effaith a gafodd streicio ar eich prifysgol chi?

- *Cafodd darlithoedd neu seminarau eu canslo*
- *Darlithoedd neu seminarau wedi symud ar-lein*
- *Methu cael mynediad i'r brifysgol (e.e. roedd y campws wedi cau)*
- *Arall (nodwch)*

C: A wnaeth gweithredu diwydiannol effeithio ar bobl y tu allan i'ch prifysgol (e.e. cyflenwyr, is-gontractwyr, busnesau lleol)?

- *Do (nodwch pa grwpiau)*
- *Naddo*
- *Grwpiau eraill (nodwch)*
- *Ansicr*

Profiad myfyrwyr

C: A gafodd y streiciau effaith ar rai myfyrwyr yn fwy nag eraill? Os felly, pa fyfyrwyr a pham y digwyddodd hyn?

- *Do (nodwch)*
- *Naddo*

- *Ansicr*

C: A arweiniodd y streic hon at faterion recriwtio i gyflogwyr lleol, yn enwedig recriwtio gweithwyr hanfodol?

- *Do*
- *Naddo*
- *Ansicr*

Addysgu ac arholiadau

C: A oes unrhyw arholiadau ac asesiadau y mae'n rhaid eu cynnal ar ddiwrnodau penodol ac na ellir eu symud?

- *Oes*
- *Nac oes*
- *Ansicr*

C: Sut yr effeithiodd streiciau ar y rhain a beth oedd yr effaith ar fyfyrwyr a darparwyr?

C: A oedd unrhyw ymdrechion gan staff a oedd yn streicio i wneud iawn am yr addysg a gollwyd oherwydd streic?

- *Nac oedd*
- *Oedd, drwy ddysgu ar-lein neu yn ystod oriau swyddfa*
- *Oedd, drwy ddysgu annibynnol*
- *Oedd, arall (nodwch)*

C: A oes yna bynciau sydd â gofynion penodol yr effeithiodd streiciau arnynt yn fwy nag eraill, e.e. meddyginiaeth sy'n gofyn am isafswm oriau cyswllt? Os felly, pa bynciau a pham yr effeithiwyd arnynt yn fwy?

C: Beth oedd eich profiad chi o'r boicot marcio ac asesu?

- *Dim amhariad arnaf i/fy mhrifysgol*
- *Amhariad bach arnaf i/fy mhrifysgol*
- *Amhariad cymedrol arnaf i/fy mhrifysgol*
- *Amhariad difrifol arnaf i/fy mhrifysgol*

C: Pa effaith gafodd y boicot marcio ac asesu arnoch chi a'ch prifysgol?

- *Ni chafwyd canlyniadau yn brydlon ond roeddwn i/myfyrwyr yn gallu symud ymlaen mewn addysg/cyflogaeth fel y bwriadwyd*
- *Ni chafwyd canlyniadau yn brydlon ac nid oeddwn i/myfyrwyr yn gallu symud ymlaen mewn addysg/cyflogaeth fel y bwriadwyd.*
- *Roedd y canlyniadau ychydig yn hwyrach nag arfer ond roeddent yn dal yn brydlon*

- *Dim amhariad*
- *Arall (nodwch)*

C. Pa effaith a gafodd y boicot marcio ac asesu ar enw da cynnig addysg uwch y DU yn y wlad hon ac yn rhyngwladol?

- *Effaith negyddol iawn.*
- *Effaith negyddol.*
- *Dim effaith.*
- *Arall (nodwch).*
- *Ansicr*

C: A wnaeth y boicot marcio ac asesu effeithio ar bobl y tu allan i'ch prifysgol e.e. cyflenwyr, is-gontractwyr, busnesau lleol?

- *Do (nodwch pa grwpiau)*
- *Nac oedd*
- *Grwpiau eraill (nodwch)*
- *Ansicr*

C: Os effeithiodd y boicot marcio ac asesu ar bobl y tu allan i'ch prifysgol, rhowch ragor o wybodaeth (e.e. busnesau lleol nad oeddent yn gallu recriwtio yn ôl yr arfer, neu'n methu ag anrhydeddu cynnig cyflogaeth a oedd yn amodol ar raddio).

C: A arweiniodd y boicot marcio ac asesu hwn at faterion recriwtio i gyflogwyr lleol, yn enwedig recriwtio gweithwyr hanfodol?

- *Do*
- *Naddo*
- *Ansicr*

Lliniaru

C: Pa fath o lefel gwasanaeth gofynnol ydych chi'n meddwl fyddai'n cael yr effaith fwyaf o ran lliniaru effeithiau mwyaf andwyol streicio mewn addysg uwch? Er enghraifft, dylai hyn ganolbwyntio ar yr hyn a ganlyn:

- *blwyddyn arholiadau*
- *myfyrwyr blwyddyn olaf*
- *myfyrwyr sy'n astudio pynciau sydd ag isafswm oriau cyswllt*
- *myfyrwyr sy'n astudio pynciau sy'n arwain at broffesiynau gweithwyr hanfodol*
- *Arall (nodwch)*

C: I brifysgolion, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i helpu i liniaru effaith streicio ar fyfyrwyr, eich prifysgol ac yn ehangach fel yr ydych yn ystyried sy'n berthnasol? Pa mor effeithiol yw'r camau yr ydych chi wedi eu cymryd?

- *Addysgu ar-lein*

- Defnyddio adnoddau allanol ychwanegol i gwmpasu bylchau dros dro
- Arall (nodwch)
- Amherthnasol

	<i>Effeithiol iawn</i>	<i>Effeithiol</i>	<i>Ansicr</i>	<i>Ddim yn effeithiol iawn</i>	<i>Hynod o aneffeithiol</i>
<i>Addysgu ar-lein</i>					
<i>Defnyddio adnoddau allanol ychwanegol i gwmpasu bylchau dros dro</i>					
<i>Arall</i>					

C: Heblaw am lefel gwasanaeth gofynnol, pa ddewisiadau eraill y gallai'r llywodraeth eu hystyried i liniaru effaith streicio mewn addysg uwch? Rhowch fanylion.

Cwestiynau Ymgynghori

Gwybodaeth am yr atebydd

C: A ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel:

Sefydliad, er enghraifft, ysgol, coleg, prifysgol, undeb neu awdurdod lleol
neu

Unigolyn

[Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn]

C: Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad, a fyddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn gyfrinachol?

Byddai

Na fyddai

Amherthnasol

C: Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad, a ydych chi'n ymateb fel:

Ysgol gynradd

Ysgol uwchradd

Coleg neu ddarparwr addysg bellach

Ymddiriedolaeth academi

Awdurdod lleol

Undeb

Elusen

Darparwr addysg uwch

Arall, nodwch

Amherthnasol

C: A ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad gyda diddordeb mewn:

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Addysg blynyddoedd cynnar

- Addysg cyfnod cynradd (5–11)
- Addysg cyfnod uwchradd (11–16)
- Ysgolion Arbennig
- Sector AB Statudol
- Sector addysg uwch
- Ysgolion annibynnol
- Ysgolion arbennig annibynnol
- Sefydliadau ôl-16 arbenigol
- Darparwyr AB eraill (nodwch)

C: Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, a ydych chi'n ymateb fel:

- Rhiant neu ofalwr
- Athro/athrawes
- Myfyriwr
- Arweinydd ysgol neu goleg
- Llywodraethwr ysgol neu goleg
- Darlithydd prifysgol
- Aelod o'r cyhoedd
- Arall, nodwch
- Amherthnasol

C: Os ydych yn ymateb fel cyflogwr (h.y. darparwr addysg uwch, ysgol neu goleg), faint o gyflogeion sydd gan eich sefydliad neu eich ymddiriedolaeth:

- 1–25
- 26–100
- 101–250
- 250–500
- 500+

Nid wyf yn gwybod

Amherthnasol

C: Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad, ble mae eich sefydliad chi?

Llundain

Gogledd-ddwyrain Lloegr

Gogledd-orllewin Lloegr

Swydd Efrog a Humber

Dwyrain Canolbarth Lloegr

Gorllewin Canolbarth Lloegr

De-ddwyrain Lloegr

Dwyrain Lloegr

De-orllewin Lloegr

Yr Alban

Cymru

Effaith y polisi

C: A oes grwpiau o bobl, megis (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, a fyddai'n elwa'n benodol o'r lefelau gwasanaeth gofynnol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau addysg?

C: A oes grwpiau penodol o bobl, megis y rhai sydd â nodweddion penodol gwarchodedig, y byddai'r lefelau gwasanaeth gofynnol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau addysg yn effeithio'n enwedig arnynt?



Department
for Education

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn:

ymholiadau www.gov.uk/contact-dfe

lawrlwytho www.gov.uk/government/consultations



Dilynwch ni ar Twitter:
[@educationgovuk](https://twitter.com/educationgovuk)



Hoffwch ni ar Facebook:
facebook.com/educationgovuk